

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd 1af
Chwefror 2017 am 7.00 o'r gloch.**

**Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 1st February
2017 at 7.00pm.**

1. **Croeso/Welcome** - Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol. / *Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*
- Presennol/Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Cadeirydd), Mary Ellis, Scott Paterson, Dafydd Roberts, Wyn Hughes, Ann Sutton, Alan Owen, a Geraint Parry (Clerc).
Cyng. C Jones a A Rowlands – gadawodd y cyfarfod 9.00yh / *Clr.C Jones and A Rowlands left the meeting at 9.00pm*
2. **Ymddiheuriadau/Apologies:-** Cyng. L Davies, R Roberts, D Jones, a G Moore.
3. **Cofnodion/Minutes**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11fed o Ionawr fel rhai cywir gan Cyng. A Sutton, eiliwyd gan Cyng. W Hughes. / *Minutes of the previous meeting held on 11th January were accepted as accurate by Clr.A Sutton, seconded by Clr. W Hughes.*
4. **Datgan Diddordeb/Declaration of interest**
 - Cyng. M Ellis ar drafodaeth Grŵp Cymunedol. / *Clr. M Ellis on the discussion about the Community Group.*
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**
 - 5.1 Arwydd cyflymder fflachio - peiriannydd wedi bod ar y safle ac wedi trwsio'r arwydd / *Flashing speed sign - engineer has been on site and repaired the sign.*
 - 5.2 Cartref Preswyl Haulfre - Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir am adrodd ar y gwaith presennol / *Haulfre Residential Home - Clerk has asked the County Council for the latest information regarding the current work.*
 - 5.3 Grŵp Seiriol - wedi gwneud cais am grant ar gyfer diffibriliwr allanol / *Seiriol Group - grant application has been submitted for an external defibrillator.*
 - 5.4 Blychau ailgylchu newydd - Cyngor Sir yn cadarnhau bod y cynllun yn cael ei ymestyn ar yr Ynys. Sesiwn brifio ynghylch y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar 15/02/17. / *New Recycling boxes - County Council confirms that the new recycling boxes scheme is to be extended on the Island. Briefing session regarding the service is taking place on the 15/02/17*
 - 5.5 Gwaith i atgyweirio wal cae - peldroed wedi dechrau / *Work to repair the football field wall has started.*
 - 5.6 Clerc wedi cysylltu â deiliad Rhan o Fôn er mwyn cael torri'r clawdd ger y palmant / *Rhan o Fon - Clerk has consulted with the householder in order to cut the hedge.*
 - 5.7 Cwlfer yn yr afon ger y trac i Glan Llyn - Clerc wedi codi'r mater gyda'r Cyngor Sir / *Culvert in the river by the track to Glan Llyn - Clerk has raised the matter with the County Council.*
 - 5.8 Cwyn ynglŷn ar car sydd wedi ei parcio ar allt Glanrafon ar threlar wedi ei barcio yn anghyfreithlon ger Teras Coedwig. I drafod gyda'r Heddlu yn ein cyfarfod mis Mawrth / *Complaint about the car parked on Glanrafon Hill and the trailer parked illegally by Coedwig Terrace, Penmon can be discussed with the Police who is attending our March meeting.*
 - 5.9 Clerc wedi cysylltu â'r ymgeisydd Tafarn y Rhyd i gynyddu diogelwch y safle / *Clerk has contacted the applicant of Tafarn y Rhyd to increase the security of the site.*
 - 5.10 Trefi Taclus - Cyng. C Jones wedi trafod y mater gyda'r Cyngor Sir, manylion i gael eu cyflwyno / *Tidy Towns - Clr. C Jones has discussed the matter with the County Council, details to be submitted.*
 - 5.11 Ffens stoc wedi cael ei godi ar draws y llwybr troed y Parc wrth y Barracks, Penmon - dim newyddion pellach / *Stock fence has been erected across the footpath over the park towards the Barracks, Penmon. No further further information.*
 - 5.12 Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir ynglŷn â chynnal a chadw ffosydd ar lôn White Beach / *Clerk has contacted the County Council regarding ditches on the White Beach lane that required maintenance.*
 - 5.13 Cyflwr ffyrdd lleol yn dirywio / *Condition of local roads are deteriorating*

6. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

Er Gwybodaeth / For Information

- 35C262A - Tyn Pwll, Llangoed - cais llawn i godi annedd a modurdy arwahan - wedi ei ganiatau / *Full application for the the erection of a dwelling and detached garage on land - has been granted.*
- 35C110A – Tafarn y Rhyd, Llangoed – cais amlinellol ar gyfer codi annedd – wedi ei caniatáu / *Outline application for the erection of a dwelling – has been granted*
- 35C320B/DA - Tyddyn Waen, Glanrafon - cais am faterion o gadwyd yn ôl ar gyfer codi annedd a chreu mynedfa - wedi ei caniatáu / *Application for matters reserved for the erection of a dwelling and access - has been granted.*
- 35C297E – Llanfaes Farm, Llangoed – cais llawn i godi twr lattice 21m uchder – wedi ei caniatáu / *Full application for the erection of a 21m lattice tower – has been granted.*
- 35C289B/VAR - Barracks Cottage, Penmon - cais i ddileu amodau - wedi ei caniatáu / *Application for the deletion of conditions - has been granted.*

7. Adroddiad gan y Cynghorwr Lleol / Report by the County Councillor

LD - Yn ystod y gaeaf mae llawer o dyllau drwg a peryglus wedi amlygu ar y lonydd lleo / *LD – during the winter there are many bad and dangerous holes on the local lanes.*

LD - canghennau o Tros yr Afon yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd / *overhead branches from Tros yr Afon are a danger to road users*

LD - trigolyn lleol yn gofyn i'r Cyngor Cymuned beth ellir ei wneud ynglŷn â chyflwr y lôn sydd heb ei mabwysiadu ger Tan Rhiw, Penmon? Clerk i gysylltu ar Cyngor Sir/ *Local resident has asked the Community Council what can be done with the condition of the unadopted road by Tan Rhiw, Penmon? Clerk to consult with the County Council.*

CJ – Cartref Preswyl Haulfre - adroddwyd bod rhan fwyaf o'r gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau. Ar hyn o bryd mae 14 o ystafelloedd gwely yn cael eu defnyddio, a dilyn y gwaith bydd 19 o ystafelloedd gwely ar gael / *Haulfre Residential Home - reported that most of the refurbishment work has been completed. Currently 14 bedrooms in use, following the work there will be 19 bedrooms available.*

CJ - wedi cyfarfod pwyllgor Clwb Pêl-droed, lle eglurwyd ei chynlluniau i'r dyfodol / *Met the local Football Club committee, who explained their future plans.*

CJ – wedi cyflwyno cais ar gyfer marcio'r ffordd ger yr Ysgol, hyd at y gyffordd / *submitted a request for road markings by the school, up to the junction.*

CJ - Swyddog BT a Gweinidog y Swyddfa Gymreig i ymweld â ffermwr lleol i drafod cyflymder band eang / *BT Officer and Welsh Office Minister to visit a local farmer to discuss the Broadband speed*

CJ - gwahoddwyd fel siaradwr gwadd i grŵp Ffermwyr Ifanc / *was invited as guest speaker to the Young Farmers*

CJ - wedi plesio ar gynig cyllidebol, sy'n edrych i ddiogelu gwasanaethau pwysig / *Was impressed with the budget proposal, which seems to be safeguarding important services*

AR – llifogydd lleol, dwr Cymru wedi sicrhau cyllid o £1.5m tuag at y gwaith / *local flooding, Welsh Water have secured £1.5m funding towards the work*

AR – Cyngor Sir yn pryderu am y gwaith ar y hen safle Lairds. Mae tyllau archwilio pwysig wedi ei lleoli yno sy'n cynorthwyo gyda'r llifogydd lleol / *County Council are concerned of the work on the old Lairds site. There are important manholes located there which assist with the local flooding.*

AR - Pobl Seiriol - Steve McVicar wedi ei benodi fel Cadeirydd y grŵp, sydd nawr gyda chyfrif banc ei hun. Mae'r grŵp nawr yn gyfeillgar gyda dementia. / *Steve McVicar has been appointed Chairperson of the group, which now with its own bank account. The group has now become dementia friendly.*

8. Neuadd y Pentre' / Village Hall

- Dim adrodd y tro yma / *No report to date*

9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group

- Arwydd "Dim Ysmygu" wedi ei godi yn y parc / *"No Smoking" sign has been erected in the park.*
- Play Rangers – i'w drefnu i fod yn bresennol yn ystod yr hanner tymor / *Play Rangers to be arranged to attend during the half term*
- Sesiynau Bingo wedi ail cychwyn a'u mynychu'n dda / *Bingo sessions have restarted and are well attended*
- Lolfa Cymunedol angen cadeiriau newydd / *Community Lounge is in need of new chairs*

10. Fynwent y Plwyf / Community Cemetery

- Angen adolygu taliadau fynwent ar gyfer 2017/18 / *Need to review cemetery charges for 2017/18*

- Contract cynnal a chadw'r fynwent wedi dod i ben, Clerc i hysbysebu / *Cemetery maintenance contract has expired, Clerk to advertise.*

11. Tir Commin / Common Land

11.1 Dilyn e-bost a anfonwyd gan ein Cadeirydd at yr achwynydd, nid oes unrhyw dystiolaeth ynglŷn â mynediad y Tir Comin wedi dod i law, dim ond e-bost oddi wrth eu cyfreithiwr.

Mae'n amlwg, ni fyddwn yn gallu creu strategaeth ar gyfer tir comin yn ystod ein cyfarfod misol, bydd angen i ni drefnu cyfarfod ar wahân.

Yn dilyn trafodaeth bellach, penderfynwyd gofyn am gyngor arbenigol a threfnu ymweliad safle. / *Following the e-mail sent by our Chairperson to the complainant, no documentary evidence regarding access of the Common Land has been received, only an e-mail from their solicitor.*

It is clear we will not be able to create a strategy for common land during our monthly meeting, we will need to arrange a separate meeting.

Following further discussion it was decided to seek expert advice and arrange a site visit.

11.2 Hefyd derbyniwyd e-bost oddi wrth N McLean yn datgan bod affidavit sy'n datgan mynedfa gerbydol i'r padog ar hyd ochr Gorwel / *Also received email from N McLean stating there is an affidavit claiming there is a vehicular access to the paddock along the side of Gorwel.*

12. Cyfrifon / Accounts

Cytunwyd i dalu'r anfoneb ganlynol / *It was agreed to pay the following invoice:-*

Talwyd / Paid:-

- Countryside Management rheoli llyisiau'r dial / *Japanese Knotweed control - £120.00*

Incwm / Income

- Fynwent y Plwyf - £140.00 / *Community Cemetery*

Cyllideb a gwariant / Budget and expenditure

Trafodwyd a chytunwyd yr incwm, gwariant a threfniant gyllideb hyd at Chwarter 3. / *Discussed and agreed the income and expenditure together with the budget arrangement at Q3.*

13. Gohebiaeth / Correspondence

- Cyng. L Davies / *Clr. L Davies* – Tros yr Afon
- Cyng. L Davies / *Clr. L Davies* – Tan Rhiw
- Cyng. L Davies / *Clr. L Davies* - Penrhyn, Tan Fron, Penmon
- Cyngor Sir / *County Council* – Penrhyn, Tan Fron, Penmon
- Cyng. R Roberts / *Clr. R Roberts* – Penrhyn, Tan Fron a Coedwig Teras
- N Mclean – Min y Dwr
- Brodie – Tir Comin y Marian / *Marian Common Land*

14. UFA/AOB:

14.1 Carafán deithiol wedi parcio mewn parth gwahardd dros nos yn Penrhyn Tan Fron, Penmon. Cyng. L Davies wedi cysylltu ar Cyngor Sir, lle mae Swyddog Gorfodi i ymweld ar safle. / *Campervan has parked overnight in the prohibited area by Penrhyn Tan Fron, Penmon. Clr. L Davies has contacted the County Council, where an Enforcement Officer is going to attend the site.*

14.2 Cyng. M Ellis - Clwb Pêl-droed Llangoed yn gofyn am gopi o'r brydles ynghylch y cae er mwyn gwneud cais am grantiau / *Clr. M Ellis - Llangoed Football Club are requesting a copy of the lease regarding the field in order to apply for grants*

14.3 Cyng. K Williams yn adrodd bod wal ger gwaith trin carthion yn suddo / *Clr. K Williams reports that the wall by the sewage works is subsiding.*

14.4 Cyng. K Williams – beth ydi'r diweddaraf gyda'r Cynllun Datblygu ar y cyd? / *Clr. K Williams – asked what is the latest with the Joint Development Plan?*

14.5 Mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio diweddar, enwedig Cerrig Penmon, penderfynwyd gofyn i Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir i fynychu ein cyfarfod i drafod y broses. / *With regards to recent planning decisions, especially Cerrig, Penmon, it was decided to request the Head of Planning to attend our meeting to discuss the process.*

14.6 Cylchlythyr Puffin i'w gylchredeg ym mis Chwefror / *Puffin newsletter to be circulated in February*

14.7 Clerc wedi dosbarthu blaen rhaglen gwaith y Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir / *Clerk has circulated the County Council forthcoming the Executive work programme.*

14.8 Webinar Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu wedi ei drefnu ar 27/02/17 am 18.30 yh / *Financial Management and Governance in Local Councils webinar has been arranged on 27 February at 18.30.*

15. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.25 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 01/03/17

There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 9.25pm. Next meeting 01/03/17.

Llofnod y Cadeirydd/*Signature*

Dyddiad/*Date*